PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 3 Ionawr 19, 2023 50c.

# Gellimanwydd
# Bedyddio chwech

Roedd oedfa fore dydd Sul 8 Ionawr yn un arbennig yng Ngellimanwydd, Rhydaman. Nid yn unig ei bod hi'n oedfa Gymun ac roeddem yn croesawu ein cyn-weinidog, y Parchg Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, atom fel pregethwr gwadd, ond hefyd roeddem yn bedyddio chwech o blant yr eglwys.

Ie, chwech o blant. Yn ystod yr oedfa cafodd Noa Rhys Rutland, Aria Beth Rutland, Martha Rachel Mabbitt, Ifan Morgan Mabbitt, Rosa Mair Pryce-Griffiths a Morgan Llyr Jenkins eu bedyddio gan y Parchg Dyfrig Rees.

Mae'r chwech yn perthyn a hyfryd oedd gweld hen fam-gu'r chwech, Mrs Rachel Ann Thomas, yn y gynulleidfa.

Roedd yn fraint cael bod yn bresennol ac fel y gallwch ddychmygu roedd y capel yn gyffyrddus lawn ar gyfer y gwasanaeth cofiadwy hwn.

**Edwyn Williams**





*Plant Clwb Sul Tabernacl, Pencader yn mwynhau yn y cwrdd plant a gynhaliwyd Sul 11 Rhagfyr 2022*

## GWEDDI BLWYDDYN NEWYDD

Diolch am ofod yn ein bywydau ym mis cyntaf y flwyddyn newydd, ac am y cyfle a rown i Ti fedru llenwi'r gofod hwn.

Dyna pryd rwyt ti yn siarad efo ni. O wneud amser a lle i Ti, daw hedd dan y fron, ac mae 'na bosibiliadau i ymgyrraedd atynt. Boed i ni dy ganfod di yng ngofod dechrau blwyddyn arall.

Cynorthwya ni, dy blant, i sylweddoli dy awydd i fod yn gyfoes, yn bresennol ar y stryd, ac yn y cysegr. Yno ynghanol helbul bywyd go iawn yn ogystal â'r sacramentau, ac yn y torri tir newydd arloesol yn ein tystiolaeth yn ein rhan fach ni o'r byd. Ti yw enfys liwgar ein gobaith ymhob cwmwl du, ein bad ymhob storm ar y môr.

Diolch am bob tystiolaeth newydd i Ti yn ein byd cyfoes heddiw. Cyffyrdda â'n bywydau ni oll drwy dy Ysbryd Glân, a gwna ni bob un yn greadigaethau newydd wrth dy waith. Boed i ni fod yn ffyddlon a thriw yn ein hymwneud â'n gilydd o ddydd i ddydd. Boed i betalau tirion dy Ras ymagor ynom eto eleni, wrth i ninnau gadw'r syniad ohonot Ti yn fyw yn ein cornel bach ni o'r Byd.

Amen

**Aled Lewis Evans**
**(allan o *Shalom*, Capel y Groes ac Ebeneser Wrecsam, rhif 497 rhifyn Ionawr 2023)**



# CAPEL YN CAU, ER MWYN EI AILAGOR

*Dyma ail ran erthygl Hywel Mudd*



Yr oedd y Parchg Lloyd Harries wedi bod yn weinidog yma am flynyddoedd lawer, ond yn anffodus mi gafodd strôc pan oeddwn i yn dechrau. Gan ein bod ein dau yn hanu o'r un ardal sef Cynwyl Elfed, mi fyddai wedi cyfoethogi fy ngweinidogaeth yn fawr iawn. Wrth ymweld ag e yn ei gartref yng Nghilgerran roeddwn yn teimlo'r golled honno. Pan gyrhaeddes i Frynmyrnach sylweddolais fod yna dîm o weithwyr yn barod am waith. Nid wyf am enwi neb rhag ofn i mi yn anfwriadol adael rhywun allan. Fel pob tîm yr oedd yna adrannau, ac mi ddefnyddiaf y termau Saesneg i'w disgrifio gan eu bod yn fwy cyfarwydd i'r darllenwr cyffredin.

### Aelodau o'r tîm

Yr oedd gen i *forwards*, y diaconiaid nad oedd gwell gan neb, ac mi fedrem ddibynnu arnynt. Rhai yn y canol y *centres*, rhai yn y cefn *full backs*, rhai bob ochr *outside left* ar *outside right* a rhai hefyd ddim yn dod i'r oedfa ond yn meddwl y byd o'r tim *left outside*.

Wrth fugeilio roeddwn yn cael yr un croeso gan bob adran fel ei gilydd. Doedd neb ohonynt yn chwarae *offside*. Yr oeddent hefyd yn cydnabod mai fi oedd capten y tîm am fod pob un ohonynt yn nabod y rheolwr Iesu ac yn dod yn rheolaidd ar y Sul i'w addoli. Yr oedd y gymanfa ganu a'r gymanfa bwnc yn ei hanterth a thrafodaethau brwd wrth drafod y gair. Credaf mai ysgol Sul Brynmyrnach a roddodd weinidog i'r Bedyddwyr, a minnau wedi chwarae rhan fach iawn yn y datblygiad hwnnw. Hyfryd oedd cael bod yn ei chyrddau ordeinio yng Nghastellnewydd Emlyn i ddymuno'n dda iddi ar ran Brynmyrnach wrth iddi ddechrau ar ei thaith weinidogaethol ar ddiwrnod ofnadwy o wlyb. Y diwrnod yn siwtio'r enwad! Dymunaf yn dda a phob bendith i Siân Elin Thomas yn y gwaith.

### Datblygiadau

Y teimlad sydd gen i fod yr oes fodern hon am gael gwared â'r rheolwr a chymryd yr awenau i'w dwylo ei hunain, ac felly mae'r llefydd ymarfer yn cau, ac yn cael eu defnyddio i bwrpas arall a'r timau yn peidio â bod. Y perygl yw bod yna dueddiad ynom heddiw i gael ein denu i chwarae *offside* a gadael i dîm y byd sgorio yn ein herbyn. Yr ydym mewn creisis economaidd heddiw am ein bod mewn creisis ysbrydol. Ateb Cesar oedd codi trethi, ateb Sunak hefyd yw codi trethi er mwyn cwrdd â'r broblem, ond ateb Duw i'r un broblem oedd rhoi mab ar Galfaria ac i ni ei dderbyn fel Gwaredwr. Er bod syrjeri Brynmyrnach yn cau y mae'n hollol sicr na fedrwn ni gau'r achos gan nad ni sydd biau'r achos. Gweddill aelodau Brynmyrnach ymunwch a thimau eraill yn y cylch. Efallai mai ar y fainc y byddwch am beth amser a gan fy mod yn eich adnabod yn dda a phan welant eich doniau rwy'n siŵr ni fyddwch yn hir cyn cael mynediad i'r tîm llawn.

Pob bendith i chi gyd a phob tîm arall sydd yn yr ardal.

Collwyd apêl y capeli – a gwelw
yw golau'n y festri
maen wrth faen yw'r sylfeini
heddiw'n drech na'r ddau neu dri

**Hywel Mudd**

# Sicrwydd

Yr adeg hon o'r flwyddyn rydym yn tafoli'r hyn sydd wedi digwydd yn ein bywydau. Sylweddolwn mai bregus yw ein cyflwr ac mai amser penodedig sydd gennym ar y ddaear. Diolch i'r drefn mae'r Beibl yn ein cynghori sut i ddelio gyda'r heriau rydym yn eu hwynebu. Dyma 3 pheth inni eu hystyried fel Cristnogion wrth i un flwyddyn ddarfod a blwyddyn newydd agor o'n blaen. Rydym fel Cristnogion yn byw ...

### Yng nghyd-destun sicrwydd cariad Duw

Testun rhyfeddod ac addoliad parhaus inni fel disgyblion Iesu yw ein bod yn ddiogel beth bynnag sy'n digwydd inni. Gall bywyd fod yn ansicr, trist a chreulon ond y mae i ni sicrwydd bob amser yng nghariad Duw yn Iesu Grist. Mae Duw yn Iesu wedi paratoi ffordd i'n cymodi a'n gwneud yn gyfeillion iddo trwy'r Iesu ei farwolaeth ar y groes a'i atgyfodiad. Ni allwn ni wneud dim i gyfrannu at ein hiachawdwriaeth. Golyga hynny mai'r unig beth rydym yn gorfod ei wneud yw credu yn Iesu a'i ddilyn.

> Trwy ras yr ydych wedi eich achub, trwy ffydd. Nid eich gwaith chwi yw hyn; rhodd Duw ydyw; nid yw'n dibynnu ar weithredoedd, ac felly ni all neb ymffrostio. Oherwydd ei waith ef ydym, wedi ein creu yng Nghrist Iesu i fywyd o weithredoedd da, bywyd y mae Duw wedi ei drefnu inni o'r dechrau.
>
> (Eff. 2:8–10)

Ond beth am weithredoedd da? Oni allwn wedyn fyw fel y mynnwn? Na ddim o gwbl, oherwydd mae bywyd person ar ôl iddo gredu yn fywyd o ddiolch ac addoliad sy'n dwyn ffrwyth cariad a chyfiawnder. Rydym yn cadw gorchmynion Duw nid er mwyn ennill ffafr ganddo Ef ond er mwyn diolch i'r Arglwydd ei fod wedi trugarhau wrthym. Fel y canodd Charles Wesley:

Mae arnaf eisiau sêl
i'm cymell at dy waith,
ac nid rhag ofn y gosb a ddêl
nac am y wobr chwaith,
ond gwir ddymuniad llawn
dyrchafu cyfiawn glod
am iti wrthyf drugarhau
ac edrych arna'i erioed.

Oedfa o fawl a diolch yw bywyd y Cristion ar ei hyd er gogoniant i'r Arglwydd. Addolwn a diolchwn i Dduw wrth fyw ein bywydau teuluol, wrth fod yn aelod mewn eglwys, wrth ddilyn gyrfa, wrth weithredu yn gymdeithasol, wrth lawenhau ac wrth alaru.

### ... yng nghyd-destun sofraniaeth Duw

Y mae Duw cariadus, cyfiawn a thragwyddol yn goruwchlywodraethu dros y cread a thros yr hyn sy'n digwydd ym mywyd pawb ohonom. Mae'r oes fodern y rhoi'r unigolyn yng nghanol bywyd. Dywedir, 'Rwyt i wneud dy ddyfodol dy hun. Yr wyt ti yn ddigon cryf i ddelio â phopeth dim ond i ti ddatblygu i'th botensial llawn.' Mae hynny'n rhoi cymaint o bwysau ar bobl fel nad ydynt yn gallu ymdopi. Ond mae dysgeidiaeth Gristnogol mor wahanol. Nid yr unigolyn yw'r canolbwynt ond Duw.

*parhad ar y dudalen gefn*



Yr Adran Gydenwadol

IONAWR 19 2023 RHIF 99

# Yr Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol, 18–25 Ionawr 2023

Thema'r wythnos eleni yw 'Byd-berthyn, gweddïo am undod ynghanol anghyfiawnder'

**Cyflwyniad i'r thema**

**Dysgwch wneud daioni. Ceisiwch farn (Eseia 1:17)**

Ar 22 Ebrill 1993 llofruddiwyd llanc ar stryd yn Llundain wrth iddo aros am fws. Roedd Stephen Lawrence yn ddyn ifanc addawol a oedd yn edrych ymlaen at wireddu ei freuddwyd o ddod yn bensaer. Cafodd ei lofruddio ond am ei fod yn ddu. Byddai ei lofruddio'n cael effaith ddwys ar gymdeithas a theimlwyd hynny ledled pedair cenedl Prydain ac Iwerddon. Amlygodd y digwyddiad hagrwch hiliaeth, a chafodd hynny ei ddwysáu gan fethiannau systemig yr heddlu i ddod â'r rhai a laddodd Stephen gerbron llys. Yn dilyn ymchwiliad cyhoeddus, daeth Adroddiad MacPherson yn 1998 â'r cysyniad o 'Hiliaeth Sefydliadol' i sylw ehangach, yr hiliaeth sydd wedi'i gwreiddio'n ddwfn mewn cymdeithas neu mewn sefydliadau.

Eleni rydym yn nodi 30 mlynedd ers llofruddio Stephen Lawrence a bydd hyn yn ffocws arbennig i lawer sy'n gweithio i sicrhau cymdeithas sydd heb hiliaeth. Tra bo hiliaeth yn bodoli, rydym yn byw mewn cymdeithas ranedig a byd rhanedig, felly yn ystod yr Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol eleni rydym yn myfyrio ynghylch y modd mae'r rhaniadau hyn yn effeithio ar ein bywyd cyffredin wrth i ni weddïo gyda'n gilydd am yr undod y gweddïodd Crist amdano. Ond rydym hefyd yn cydnabod cymaint mae eglwysi wedi cyfrannu at raniadau a rhagfarn o fewn ein sefydliadau ac o fewn cymdeithas. Tra bo hiliaeth, ni fydd undod Cristnogol!

*Daw'r deunydd canlynol o'r astudiaethau dyddiol yn y llawlyfr i gyd-fynd â'r Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol. Dilynwch y ddolen hon ar gyfer yr adnoddau yn Gymraeg a Saesneg:* [Adnoddau ar gyfer yr Wythnos Weddi dros Undod Cristnogol 2023 (ctbi.org.uk)]

**Diwrnod 1: Wedi'n gwneud ar ddelw Duw**

**Darlleniadau**

Genesis 1:26–28
Datguddiad 7:9–12

**Sylwadau**

Yn llyfr cyntaf y Beibl, dywedir wrthym ein bod wedi ein creu ar lun a delw Duw, nid dim ond fel unigolion ond fel cyfangorff. Mae'r ddynoliaeth gyfan, pobl o bob hil, diwylliant, iaith a chrefydd, ynghyd yn adlewyrchu delw'r Creawdwr. Golyga hynny fod gwadu'r ddelw honno mewn unrhyw un hil, yn wir mewn unrhyw unigolyn, yn golygu gwadu presenoldeb Duw yn y ddynoliaeth drwyddi draw.

Mae bod yn Gristion yn golygu bod yn ddisgybl. Fe'n gelwir i ddysgu gyda'n gilydd yr hyn mae gwneud daioni yn ei olygu, a phwy a beth yng nghreadigaeth Duw sy'n gofyn ein cydsafiad. Wrth i gymdeithas ddod yn fwyfwy di-hidio am anghenion eraill, mae'n rhaid i ni, fel plant Duw, ddysgu sut i sefyll dros ein brodyr a'n chwiorydd sydd dan ormes drwy lefaru'r gwirionedd wrth y grymus. Ac, os bydd angen, mae'n rhaid i ni fod yn barod i ddadlau achos y rhai sy'n dioddef fel y gallant fyw mewn heddwch a chyfiawnder. Wrth wneud hynny byddwn bob tro'n gwneud yr hyn sy'n iawn, gan gydnabod bob adeg ddelw Duw ym mhawb ohonom.

Mae ein hymrwymiad i ddileu pechod hiliaeth a chael ein hiacháu o'i effeithiau'n gofyn ein bod yn barod ac yn fodlon bod mewn perthynas â'n cyd-Gristnogion. Bydd hynny'n arwydd o undod ar gyfer yr holl fyd.

**Myfyrdod**

Dyma sut y byddwn yn eu henwi:

ffoaduriaid,

ceiswyr lloches,

ymfudwyr,

ymfudwyr economaidd,

a mwy o groeso i rai nag i eraill.

Ond gwyddost tithau eu henwau dynol

oherwydd dy deulu ydynt,

yn dwyn dy ddelw di,

yn ddwyfol ddynol.

**Gweddi**

Fe'n gwnaethost, Dduw,

ar dy ddelw dy hun,

ac yna dod yn un ohonon ni,


yn falch o'r rhai a greaist.

Gwna ninnau'n falch o fod yn rhan o'r teulu byd-eang hwnnw,

ac yn eiddgar am ddarganfod a dathlu dy ddelw dithau

ym mhob unigolyn, pob diwylliant, pob cenedl

y cawn y fraint o ddod i gyswllt â nhw.




**Cwestiynau**

Ydy hi'n hawdd i chi adnabod delw Duw ym mhobl eraill? Ynteu a yw hynny weithiau'n heriol?

Sut mae eich eglwys neu grŵp o eglwysi'n croesawu rhai sy'n newydd i'ch cymuned?

Sut allwn ni weld delw Duw mewn pobl rydym yn ei chael yn anodd eu caru?

**Ewch a Gwnewch** (gweler: www.ctbi.org.uk/goanddo)

Neilltuwch amser i ddysgu am ddiwylliant, iaith neu genedl na wyddoch ddim, neu fawr ddim, amdano neu amdani. Dysgwch gymaint ag y gallwch am y bobl hynny ac, os yw'n bosibl o gwbl, dysgwch yn fwy uniongyrchol oddi wrth unigolyn neu unigolion o'r grŵp hwnnw.

Cynhwyswch iaith wahanol yn yr addoliad yn eich eglwys yn eich gwasanaeth nesaf – efallai y bydd yn arbrawf mwy effeithiol fyth os nad yw neb yn eich cynulleidfa yn ei deall!

Edrychwch yn ôl i'r newyddion ddeng mlynedd yn ôl i ddod o hyd i grŵp o bobl a oedd mewn perygl bryd hynny. Darganfyddwch beth yw eu sefyllfa nawr a'r modd y gallech chi neu eich eglwys neu grŵp o eglwysi eu cefnogi a/neu ddysgu oddi wrthynt.

# Cyfle am Flwyddyn Gap yng Ngholeg y Bala 2023–24

Buom yn rhoi sylw yn gyson yn *Cenn@d* i'r cyfle i fod ar flwyddyn gap yng Nghanolfan Plant ac Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Ngholeg y Bala. Beth am dynnu sylw ieuenctid yn eich eglwys at y cyfle hwn?

Wyt ti eisiau rhoi cyfnod i wasanaethu Duw yng Nghymru? Dyma gyfle cyffrous i ti weithio fel rhan o dîm ar benwythnosau plant, ieuenctid ac ieuenctid hŷn Coleg y Bala. Fe fyddi hefyd yn cael gwasanaethu mewn clybiau plant ac ieuenctid wythnosol!

Trwy wasanaethu fe fydd cyfleoedd i ti brofi dy ddoniau ac i ddatblygu'n bersonol, yn ogystal â sesiynau mentora rheolaidd.

Am fwy o wybodaeth, pwysa ar y ddolen isod ac anfon y ffurflen gofrestru atom mor fuan â phosibl neu erbyn 27 Chwefror fan bellaf. Am sgwrs anffurfiol, croeso i ti ffonio'r Coleg ar 01678520565 i drefnu i siarad â Siân neu Owain: http://www.colegybala.org/Cymraeg/blwyddyn-gap

### Cyrsiau Chwefror yng Ngholeg y Bala

Beth am hyrwyddo'r cyrsiau hyn ymhlith eich plant a'ch pobl ifanc? Dilynwch y dolenni am ffurflen archebu am le ar y cwrs neu cysylltwch â Choleg y Bala ar y rhif uchod.

ADUNIAD: 10–12/02
I bobl ifanc 15+ a myfyrwyr: https://forms.gle/z5nfctSzT5qyqXxH7

CHWALFA CHWEFROR: 20–21/02 (Llun–Mawrth hanner tymor)
I blant 8–11 oed: https://forms.gle/8dW8L7pwh9YeWrCJA

CWRS IEUENCTID: 24–26/02 (Penwythnos olaf hanner tymor)
I ieuenctid blynyddoedd uwchradd 7–10: https://forms.gle/







## CYFLEOEDD CYFFROUS I WEINIDOGAETHU I BLANT, IEUENCTID A THEULUOEDD

CAERSALEM Caernarfon

**Swyddog Plant a Theuluoedd Caersalem, Caernarfon**
**(2 ddiwrnod yr wythnos)**

CynllunEFE Efengyl i Fro'r Eco

**Swyddog Plant, Ieuenctid a Theuluoedd Cynllun Efe,**
**Bro Eco'r Wyddfa**
**(3 diwrnod yr wythnos)**

Ydych chi'n angerddol dros rannu gobaith Iesu Grist ag eraill? Ydych chi eisiau gweithio gyda phlant, ieuenctid a theuluoedd?
Ymgeisiwch am y swyddi hyn am gyfle i ddatblygu eich doniau mewn lleoliadau cefnogol.
Bydd y ddwy swydd hon yn ffurfio tîm a fydd yn cydweithio ar ran Capel Caersalem a Chynllun Efe.
Am fanylion llawnach am y swyddi a ffurflen gais, cysylltwch ag Arwel E. Jones: eithinoguchaf@btinternet.com.
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 3 Chwefror 2023

ADNABOD

# Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 14 Y rhyfel cyntaf a gwared Lot

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 8)

### Darllen: Genesis 14:1–16

Rydym yn troi yn awr at hanes sydd ychydig yn fwy anghyfarwydd, efallai, hanes sy'n cynnwys llawer o enwau lleoedd a phobl, a hanes ag un pwrpas yn unig – yn benodol, dangos sut yr ymatebodd Abraham i angen Lot. Mewn ffordd, mae'r hanes yn cadarnhau ffolineb Lot fel un oedd yn cerdded wrth olwg ac nid â golwg ffydd, ac yn brin o'r ffydd hael oedd wedi nodweddu ei ewythr ym mhennod 13. Ymhellach, mae pennod 14 yn nodedig gan mai dyma'r cyfeiriad cyntaf at ryfel rhwng pobl yn y Beibl. Roedd Duw yn gweithio drwy Abraham i fendithio'r holl genhedloedd, ond er hynny mae cynnen yn codi wrth i bobl barhau yn eu pechod. Rydym yn gweld hynny o'r cyfeiriad cryno at gymhelliad Cedorlaomer, yn benodol, y ffaith fod brenhinoedd Sodom, Gomorra, Adma, Seboim a Soar wedi peidio â thalu trethi mewn arian ac eiddo, ac yn hynny, mae'n debyg, yn gwrthod y gwasanaeth y cyfeirir ato yn adnod 4.

Peth diflas iawn i ni yw fod rhywrai'n gwrthod rhoi'r hyn yr ydym yn credu rydym yn ei haeddu ganddynt, ac mae gwrthryfel yn siŵr o esgor ar ganlyniadau. Yn hanes y Brenin Ahasferus yn llyfr Esther, fe gofiwch i hwnnw, yn wyneb anufudd-dod ei wraig, ofidio am yr effaith y byddai clywed am hyn yn ei chael drwy'r holl deyrnas (Esther 1:10–18). Felly, Cedorlaomer – nid yn unig yr oedd gwrthod gwasanaethu yn ergyd i'w falchder, yr oedd hefyd yn gosod cynsail perygl. Mae'r adnodau'n rhoi cip pellach inni ar falchder a llid y brenin gan iddo daro'r Reffaimiaid, y Susiaid, yr Emiaid, yr Horiaid, yr Amaleciaid a'r Amoriaid ar ei ffordd i'r frwydr! Yn sgil y buddugoliaethau hyn, mae ei fyddin yn nesáu'n hyderus at y pum brenin oedd wedi cynghreirio yn ei erbyn, a'r rheiny'n gwasgaru'n rhwydd iawn o'i flaen. Cymaint mwy ein syndod felly fod Abraham, gyda byddin o ddim ond 318, wedi llwyddo i ymlid y gynghrair yma oedd wedi bod mor llwyddiannus yn eu cyrchoedd milwrol. Nid yn unig yr oedd wedi gorchfygu a gwared Lot, ond hefyd wedi llwyddo i feddiannu eu holl eiddo i'w roi yn ôl yn ddiweddarach i'w berchnogion (adn. 22–4).

Wrth ddod at yr adran hon, fel at adrannau eraill yn y Beibl sydd yn anodd eu deall, rydym yn gwneud hynny gyda golwg ar yr hyn a ddywed Pedr am yr awduron: 'pobl oeddent a lefarodd air oddi wrth Dduw wrth gael eu hysgogi gan yr Ysbryd Glân' (2 Pedr 1:21), a'r hyn ddywed Paul am bwrpas yr ysgrythur: 'Ac fe ysgrifennwyd yr Ysgrythurau gynt er mwyn ein dysgu ni, er mwyn i ni, trwy ddyfalbarhad a thrwy eu hanogaeth hwy, ddal ein gafael yn ein gobaith' (Rhufeiniaid 15:4). Yn hynny, y cwestiwn bob amser yw: beth y mae'r hanes yma'n ei dysgu inni am Dduw, am ei bobl ac am y byd, sy'n ein hannog i ddyfalbarhau a dal gafael yn ein gobaith?

Yr wyf eisoes wedi nodi dau beth: penderfyniad Lot a'i ganlyniadau, a chymhellion Cedorlaomer. O ran y cyntaf, digon yw dweud bod dewis mynd i fyw yng nghanol pobl annuwiol (Genesis 13:13) yn siŵr o gael effaith a chanlyniadau yn ein bywyd ni. O ran yr ail, mae'r Cristion yn mynd i le peryglus iawn pan mae'n haeru rhyw haeddiant neu'i gilydd, a rhwydd iawn yw darganfod rhesymau naturiol dros fynnu ein hawliau, hyd yn oed pan mae hyn yn golygu tarfu ar heddwch a rhoi lle i gasineb.

Mae'r hanes am barodrwydd Abraham i ddod i gynorthwyo Lot hefyd yn rhywbeth yr wyf am ei nodi, a gwneud hynny drwy ddyfynnu un o sylwadau Mathew Henry ar y digwyddiad: 'Er efallai fod eraill wedi bod yn esgeulus yn eu dyletswyddau tuag atom ni, eto, ni ddylem ni, oherwydd hyn, wadu ein dyletswydd tuag atynt hwy.'

Rwyf hefyd am gyfeirio at y ffaith fod awdur yr adnodau hyn yn cyfeirio at Abraham yma am y tro cyntaf fel Hebread (14:13). Ystyr y gair yn llythrennol yw 'y rhai sydd wedi croesi'r afon', a dyna oedd ei ystyr yn achos enw hen hen hen hendaid Abraham – Heber (10:21, 24; 11:15). Mae'n rhyw fath o enw teuluol felly, enw sy'n gosod Abraham fel un oedd wedi croesi afon Ewffrates o Babel i ddod i Ganaan, mewn gwrthgyferbyniad â'r bobl yma oedd yn ymosod arno. Yn y gair bach yma felly cawn ein hatgoffa o'r rhai y mae'r Beibl am ffocysu arnynt. Mae'n ddiddorol, yn hanes yr Exodus, fod Moses yn cyfeirio at Dduw fel 'yr Arglwydd, Duw'r Hebreaid' yn gyson (Exodus 3:18; 5:3; 7:16; 9:1; 10:3), term y mae Paul am ei ddefnyddio amdano'i hun (2 Corinthiaid 11:22), teulu daearol y Meseia ei hun. Tebyg nad oes cywilydd gennym ni chwaith fel Cristnogion i gael ein galw'n deulu Iesu, gan inni gael ein mabwysiadu i'r teulu drwy ei ras.

I gloi, rwy'n sicr fod yr hanes yma i fod yn rhagflas i deulu Abraham, i genedl Israel ac i ninnau fel Cristnogion o'r realiti hwnnw, 'canys nid arfau gwan y cnawd yw arfau ein milwriaeth ni, ond rhai nerthol Duw sy'n dymchwel cestyll' (2 Corinthiaid 10:4). Er nad oes cyfeiriad penodol yn yr adnodau hyn at ffydd Abraham yn mynd i'r frwydr, bydd yr adnodau nesaf (14:17–20) yn rhagflas o'r fendith a'r amddiffynfa sydd yn Nuw i'w bobl. Er bod lluoedd yn eu herbyn, mae yna addewid i'w bobl: "Paid ag ofni, oherwydd gwaredaf di; galwaf ar dy enw; eiddof fi ydwyt. Pan fyddi'n mynd trwy'r dyfroedd, byddaf gyda thi; a thrwy'r afonydd, ni ruthrant drosot" (Eseia 43:1–2) ac i'w Eglwys: 'ar y graig hon yr adeiladaf fy eglwys, ac ni chaiff holl bwerau Hades y trechaf arni' (Mathew 16:18).

1. Sut fyddwch chi'n gweithio'n briodol i sicrhau hawliau eraill a'r un pryd yn gwneud yn siŵr nad ydych yn mynnu eich hawliau eich hun mewn ffordd amhriodol?
2. Meddyliwch am enghreifftiau lle y gall arddel enw ein teulu Cristnogol fod yn heriol.
3. 'Yn sicr mae yna elynion yn y bywyd Cristnogol, a'r rhan fwyaf ohonynt ynom.' Pa elynion fyddwch chi'n eu hystyried fel y rhai mwyaf heriol, a pha elyn yn y dyfodol sydd yn eich arswydo? Beth am ateb William Williams: 'Ond mi rois fy holl ryfeloedd / i'r Un godidoca'i rym'?

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 22 Ionawr, am 7.30yh**
Yr wythnos hon byddwn yn dathlu 'Cariad'. Cawn hanes Santes Dwynwen a'r lleoliad rhamantus Ynys Llanddwyn, a chydganu rhai o'n hoff emynau, yn ogystal â mwynhau datganiad hyfryd gan Ceri Haf Roberts o'r emyn-dôn 'Cariad'.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 22 Ionawr, am 7:30yb a 4:30yp**
R. Alun Evans fydd yn cyflwyno'r bumed raglen mewn cyfres sy'n trafod gwahanol themâu. Heddiw, clod a mawl yw'r thema

**Sul, 22 Ionawr, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Gerallt Lloyd Evans, Bodorgan

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Y Diweddar Alun Jones

## Capel y Wig, Blaencelyn, Llangrannog, Ceredigion



Gyda dydd Nadolig yn agosáu collwyd aelod ffyddlon a chefnogol i achos Iesu Grist ac i'w weinidog yng Nghapel y Wig, Llangrannog ac eglwys Bethesda, Tymbl a'r gweinidogion yno sef Emyr Gwyn Evans a Gwyn Elfyn Jones sef Alun Jones. Gyda thristwch y cofnodir marwolaeth Alun Jones gynt o Siop a Swyddfa Bost, Blaencelyn, Llangrannog, ac yn ddiweddarach, Drefach, Llanelli. Hunodd dydd Llun, 12 Rhagfyr 2022 yn 86 mlwydd oed. Priod addfwyn a chefnogol Bethan, tad gofalus ac annwyl Judith a'i phriod Tony, Janet a'i phriod Nick. Tad-cu balch Iestyn, brawd tyner Ann, Carol a'r diweddar Ceinwen. Brawd yng nghyfraith arbennig John a Jane, a'r diweddar Eddie a Ricey, perthynas, cyfaill a chymwynaswr didwyll.

### Angladd

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol dydd Iau, 22 Rhagfyr yn breifat yng nghapel gorffwys Afallon, Penrhiw-pāl, Rhydlewis ac yn amlosgfa Parc Gwyn, Arberth dan ofal ei weinidog y Parchedig Carys Ann, BA Gapel y Wig. Cymerwyd rhan hefyd gan y Parchedigion Emyr Gwyn Evans a Gwyn Elfyn Jones ar ran eglwys Bethesda, Tymbl.

Derbyniwyd nifer o gardiau o gydymdeimlad oedd yn cynnwys geiriau o gysur. Yn eu plith ar ran Capel y Wig, Blaencelyn roedd englyn, sef:

Y cwlwm oedd Blaencelyn, – naws ei wên,
gwasanaeth diderfyn;
i'w enaid trwy'r bywionyn,
nef ag aur yn hafau gwyn.

Jon Meirion

Ynghyd â'r geiriau: 'Collasoch ŵr bonheddig, bu'r ddau ohonoch yn gaffaeliad arbennig i Fethesda. Ychwanegiad i fywyd bob un ohonom oedd cael y fraint o'i adnabod. Cofion anwylaf, Morlais a Menna, Bethesda, Tymbl.' Cafwyd neges trwy lythyr gan chwaer Alun, sef Carol oedd methu a bod yn y gwasanaeth, methu bod yn bresennol hefyd oedd chwaer Alun sef Ann, David a Brenda, Gareth a Martin, Brenda, (teulu Eddie) a rhai o deulu Ricey. Darllenwyd y geiriau yn y gwasanaeth oedd yn cael ei ddarlledu yn fyw ar y we. Gwerthfawrogwyd presenoldeb teulu Coedybryn, trigolion Pontgarreg, Blaencelyn, Drefach, Llanelli, Tymbl a Chaerdydd.

### Cefndir

Cofir am Alun fel un o bedwar o blant, a fagwyd yn y llaethdy lleol a siop yn Ealing, Llundain, enwau ei chwiorydd oedd Ceinwen, Anne a Carol. Daeth Alun i'r byd ym 1936 ychydig cyn yr Ail Ryfel Byd. Danfonwyd Alun a'i chwaer Ceinwen *fel evacuees* i Gymru at aelodau o'u teulu, roedd eu cartref drws nesaf i'r Carpenter's Arms, Llechryd. Bu eu harhosiad dros chwe blynedd ar aelwyd Anti Anna (chwaer ei fam-gu) ac Wncwl John, oedd yn brifathro ysgol Llechryd. Wedi i'r rhyfel ddod i ben, aeth Ceinwen ac Alun yn ôl i Lundain. Cymerodd amser i Alun i arfer â bywyd Llundain a'r iaith. Roedd bellach yn Gymro balch. Roedd rhaid iddo wneud ei gyfrifoldebau dros ei wlad gan ymuno â'r RAF gan ddod ymhen amser yn gorporal, dros gyfnod o dair blynedd.

Ar ôl y rhyfel daeth Alun yn ôl i gynorthwyo yn siop a llaethdy ei rieni, gan gyfarfod ag un o Gymru, sef Bethan Jones, Arwel, Coedybryn, oedd yn athrawes yn Romford, Dagenham. Priodwyd y ddau ym 1960, gan gael eu merch gyntaf Judith mewn rhai blynyddoedd. Daeth y teulu bach yn ôl i Gymru, i Celyn Parc, Blaencelyn ychydig wythnosau cyn bod eu hail ferch Janet yn dod i'r byd. Bu'r pedwar ohonynt yn byw yn hapus yn Celyn Parc am dros 37 o flynyddoedd nes bod Alun wedi ymddeol o'r siop a'r swyddfa bost. Yn y cyfnod yma gwelwyd Judith a Janet yn cwblhau eu haddysg ac yn gwneud yn rhyfeddol o dda yn eu gyrfaoedd, yn sicr roedd eu tad yn ymfalchïo'n dawel am hyn, gan ei fod yno yn gefn ac yn gymorth gydol eu bywyd. Ymddeolodd Bethan fel athrawes ysgol gynradd Rhydlewis gan symud i Lan-non, Llanelli. Priododd Judith a Tony, a bellach mae Iestyn yr ŵyr wedi cael cyfle i ddod i adnabod ei dad-cu.

Roedd Alun wedi ei fendithio a synnwyr digrifwch, onestrwydd, parch at eraill ac anwyldeb. Cyflwynwn ef yn ôl i'r Hwn a'u rhoes mewn gwir a diogel obaith o fywyd tragwyddol.

**Carys Ann**

# GAIR AM AIR

Perthyn i bob iaith eiriau na ellir yn llawn a llwyr eu cyfieithu i iaith arall. Mae'r gyfres hon o fyfyrdodau yn ymdrin ag ambell un o'r geiriau diddorol rheini. Daw testun ein sylw heddiw o'r Sbaeneg: *duende*. Yn fras, *duende* yw gallu ambell ddarn o gelfydd i godi'r galon a chyffroi'r enaid.

Cyson bu'r sôn am y dirwasgiad; mae ei effaith yn amlwg ddigon. Mae sawl sefydliad, cymuned ac aelwyd yn plygu dan ei bwysau. Yng ngafael dirwasgiad, y demtasiwn barod yw ysgubo ymaith bopeth sy'n dda i ddim, a hynny'n naturiol ddigon; ond naturiol ddigon ai pheidio, gan y pethau sy'n dda i ddim mai cyfrinach goroesi'r dirwasgiad, a hynny'n union oherwydd mae da i ddim ydynt!



Adroddai William Temple stori am dad yn anfon ei blentyn i'r ysgol gyda nodyn ar ddarn o bapur 'Dear Sir, don't teach my boy poetry, he's going to be a grocer.' Roedd *poetry* yn dda i ddim, yn yr un ffordd mae'r cain, a'r prydferth yn dda i ddim! Roedd *poetry* yn dda i ddim yn yr un ffordd mae ffydd, gobaith a chariad, bob un yn dda i ddim!

Heb os, mae *poetry*, celfyddyd a cherddoriaeth; mae ffydd, gobaith a chariad yn dda i ddim mewn dirwasgiad, a dyna'n union pam mae'r union bethau hyn sydd angen arnom i ymdopi â'r dirwasgiad, ac i ymateb iddo fel unigolion, ac fel cymdeithas. Y pethau sy'n dda i ddim fydd yn cynnal a chadw ein hymdrechion i gynnal a chadw ein gilydd.

Tra bu yng ngafael ei ddirwasgiad ef ei hun, mynnai Iesu: 'Nid ar fara yn unig y bydd dyn fyw ...' (Mathew 4:4). O dan bwysau ein dirwasgiad ninnau, y demtasiwn yw ymwrthod â phopeth nad sy'n fara, ac yn union oherwydd bod y demtasiwn honno mor gwbl naturiol a dealladwy, rhaid i unigolyn a chymdeithas 'edrych ar hawddgarwch ac i ymofyn yn ei deml.' (Salm 27:4) Rhaid wrth fara a *poetry* beunyddiol.

Mae pobl lliw a llun o brydferthwch yn dda i ddim. Mae *poetry* ffydd, gobaith a chariad yn dda i ddim, ond gan y pethau sy'n dda i ddim mae cyfrinach popeth gwerthfawr: *duende*.

**Owain Llŷr Evans**

# Barn Annibynnol

## Cydgerdded

*Mi fedrwch chi wneud unrhyw beth – ond dim bob dim (nodyn bach i fi fy hun) neu efallai adduned flwyddyn newydd ?*

Ella mod i braidd yn hwyr i'r parti ond dwi am ddeud blwyddyn newydd fodlon i chi gyd. Dwi ddim yn hoffi deud Blwyddyn Newydd Dda. Mae blwyddyn newydd yn gallu bod yn dda, yn wych, i rai, yn sbardun i newid, llechen lân neu beth bynnag. I eraill gall fod yn gychwyn ar hunllef , yn gychwyn blwyddyn anodd a thrist, o salwch, o anobaith a thor calon. Mi fydda i'n aml yn diolch nad ydym yn gwybod be sy'n dod i'n cyfarfod er ein holl gynllunio gofalus. Gall rhywbeth ddod i'n taro oddi ar ein hechel, a newid ein byd mewn eiliad. Gall hynny fod er gwell neu er gwaeth. Mae'n ystrydeb braidd dweud 'un dydd ar y tro' ond y gwir amdani ydi dyna'r oll y gallwn ofyn amdano gan Dduw.

### Bodlon

Felly i dorri stori hir yn fyr, blwyddyn newydd fodlon i chi. Mae bodlon yn golygu y gallwn, beth bynnag ein hamgylchiadau, ddarganfod bodlonrwydd, a hynny hyd yn oed ynghanol adfyd. Mae pobl sydd wedi profi bywyd anodd a phoenus yn tystio i hyn. I ni fel Cristnogion ein ffydd ydi'r llygedyn golau sy'n cynnal. Dwi'n tueddu i fod yn berson positif ac wedi derbyn y rhodd o droi'r negyddol yn bositif, a gobeithio yn gallu gweld rhuddin da ym mhawb. Y rhodd fwyaf y gallwn roi i eraill ydi ein hamser, ein sylw , ein cariad ein consyrn.

### Trwsio pobl

Ond mae yna 'fflip-seid' i hynny, sef fy mod i'n meddwl y medra i neud pob dim! (Gweler fy adduned blwyddyn newydd ar gychwyn yr erthygl hon.) Dwi'n ffeindio hi'n anodd deud 'na'. Yn fy swydd (cyn COVID) roedd hi'n ddrws agored yn fy swyddfa ac o ganlyniad byddwn yn cyrraedd adref yn hwyr gan nad fyddwn wedi gorffen tasgau'r dydd. Doedd cydbwysedd gwaith ac adref ddim yn iawn. Mae gen i dueddiad i feddwl y medra i gario beichiau'r byd. Mae'r frawddeg fach 'byddwch garedig' #bekind wedi dod yn frawddeg fachog bwysig ar y cyfryngau cymdeithasol. I wireddu hyn rhaid yn gyntaf bod yn garedig gyda ni ein hunain. Os na allwn fod yn drugarog gyda ni ein hunain, sut allwn ni fod felly tuag at eraill? Yn reddfol dwi isio trwsio pobl, ond yr hyn a ddysgais dros y blynyddoedd ydi mai'r rhodd fwyaf ydi cefnogi ac arfogi pobl i drwsio'u hunain.

### Cemegolion hapus

Nid wyf yn wyddonydd o bell ffordd ond dwi yn deall dipyn bach am y cemegolion hapus (y rhai cyfreithlon!) mae'r corff yn eu cynhyrchu.

*Dopamine* – y cemegolyn gwobrwyo, sy'n cael ei greu drwy lwyddiant personol, gorffen rhywbeth, dathlu enillion bach, bwyta a phleser bywyd.
*Oxtytocin* – y cemegolyn cariad, sy'n cael ei gynhyrchu drwy fynegi cariad syml, cwtsh, pleser bod efo babi neu anifail, rhoi canmoliaeth i eraill .
*Seretonin* – y cemegolyn mae'r corff yn ei greu i'w sefydlogi, drwy fyfyrio, rhedeg, a bod allan yr awyr iach
*Endorphin* – y cemegolyn lladd poen sy'n cael ei greu gan y corff drwy chwerthin, ymarfer a bwyta siocled (tywyll, sylwer).

Nodi'r prif bethau yn unig a wneir uchod gan fod llawer o bethau eraill yn gatalydd i greu y cemegolion.

Meddyliwch pa mor rhyfeddol mae Duw wedi ein creu ni. Mae wedi creu ein cyrff i ymateb i'n sefyllfa. Y rhyfeddod mwyaf yw fel Cristnogion fod Duw yno o'n blaen ni. Nid i'n gwarchod rhag ein ffolineb ni ein hunain na phenderfyniadau annoeth eraill, ond i fod gyda ni yn y profiadau hynny gan ein cynnal.

### David Coffey



Yn 1988 yng nghynhadledd Bedyddwyr ifanc y byd, roedd oedfa o fawl o dan arweiniad Graham Kendrick a David Coffey, oedd ar y pryd Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr. Wrth siarad cododd David destun oedd yn deillio o brofiad personol o gyfarfod â David arall yng ngŵyl Greenbelt. Plentyn oedd y David hwnnw yn byw bywyd arbennig o lawn a hapus. Llanwai fywydau ei deulu a'i ffrindiau â chariad hollol ddiragrith er ei fod yn byw gydag anableddau dwys iawn. Rhyfeddai David Coffey at David a'i rieni, gan iddynt roi adnod iddo fel testun ar gyfer pregeth draddododd yn Glasgow yn 1988.

'Oherwydd myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer,' medd yr ARGLWYDD, 'bwriadau o heddwch, nid niwed, i roi ichwi ddyfodol gobeithiol.' BCND

### Cydymaith

Dyna beth mae Duw yn ei gynnig i ni drwy Iesu Grist, dyfodol gobeithiol – nid dyfodol lle bydd bob dim yn oce os ydych yn credu ynof i, ond dyfodol gobeithiol oherwydd fy mod yn cydgerdded â chi. O bryd i'w gilydd mae Duw yn defnyddio sawl cyfrwng a doniau eraill i gydgerdded gyda ni.

Dyma rai rhifau ffôn allai fod yn ddefnyddiol i chi wrth gydgerdded gyda phobl sy'n cael bywyd yn anodd ar brydiau. Un peth bach arall, os dach chi'n gofyn i rywun 'Sut dach chi?' does wybod be ydi'r ateb go iawn, gofynnwch eto, 'Sut dach chi?' Gall cwestiwn mor syml achub bywyd.



Mae yna gannoedd o rifau cyswllt a gwefannau at eich defnydd chi allan yn fanna, canllaw bach iawn ydi rhain sy'n benodol yn cefnogi gyda materion llesiant ac iechyd meddwl.

Fel cyn athrawes rwy'n eich gadael gyda gwaith cartref ! Am fwy o wybodaeth Gwgliwch y mudiadau isod.

| | |
|---|---|
| SAMARIAID | 116 123 |
| CHILDLINE | 08001111 |
| HOURGLASS | 0808 808 8141 |
| PAPYRUS | 0800 068 41 41 |
| CALM | 0800 58 58 58 |
| MIND CYMRU | 029 2039 5123 |
| CALL | 0800 132 737 |
| BEAT | 0800 801 0433 |

**Elen Vaughan**

((Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

*[Hoffem ddiolch o galon i Elen am ei chyfraniadau gwerthfawr i'r golofn Barn Annibynnol tros y blynyddoedd. Gwerthfawrogwyd eich bydwelediad ac am ein tywys yn gyson at yr Arglwydd Iesu. Mae Elen am gael hoe nawr o'r cyfrifoldeb hwn a dymunwn yn dda iddi nawr i'r dyfodol. **Gol.**]*

## DYDD GWEDDI'R BYD 2023 TAIWAN

Cynhelir dydd Gweddi'r Byd ddydd Gwener, 3 Mawrth

Thema: 'Clywais am eich ffydd'

Cyflwyniad pwynt pŵer ar gael yn Gymraeg
drwy e-bostio Mary Thomas:
rema.thomas@btinternet.com.

Cyflwyniad pwynt pŵer ar gefndir Taiwan, 20 sleid gyda theitlau Cymraeg ynghyd â sgript Cymraeg
[Taiwan Presentation Welsh Slides Download with Welsh script]
ar gael o'r Swyddfa Ganolog drwy e-bostio office@wwdp.org.uk

Pris y PowerPoint Saesneg yw £2.
ond medrwch sicrhau'r lawr lwythiad Cymraeg
ond i chi gyfrannu at eich casgliad lleol.

Deunydd ar gyfer plant i'w cael yn rhad ac am ddim i'w lawr lwytho
oddi ar y wefan: www.wwdp.org.uk

**Beti-Wyn James**
**Carys Ann**
*Swyddogion Cyhoeddusrwydd*

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

## Sicrwydd – *parhad*

Ble mae'ch ffydd chi?[31] Peidiwch poeni felly, a dweud, 'Beth wnawn ni fwyta?' neu 'Beth wnawn ni yfed?' neu 'Beth wisgwn ni?'[32] Y paganiaid sy'n poeni am bethau felly. Mae'ch Tad nefol yn gwybod am bopeth sydd ei angen arnoch chi.[33] Y flaenoriaeth i chi ydy gadael i Dduw deyrnasu yn eich bywydau a gwneud beth sy'n iawn yn ei olwg; wedyn byddwch yn cael y pethau eraill yma i gyd.[34] Felly, peidiwch poeni am fory, cewch groesi'r bont honno pan ddaw.

Math. 6:31–34
(Gweler hefyd Iago 4:13–17)

Yma mae'r Iesu yn pwysleisio ein bod i roi Duw fel blaenoriaethau. Mae hyn yn ei harfogi i ddelio gyda phryder bywyd oherwydd y credwn fod Duw wrth y llyw doed a ddelo.

### ... yng nghyd-destun atgyfodiad Iesu

Yn ystod cwpan pêl droed y byd fe beintiwyd nifer o furluniau ar hyd a lled Cymru o arwyr y bêl gron. Mae gwaith yr arlunwyr yn grefftus iawn ac y maent yn amlwg yn mwynhau cael cynfas tipyn mwy i beintio arno. Roedd llawer ohonynt wedi arfer cael cynfas llawer llai i wneud eu gwaith. Mae hynny'n wir am ddylanwad negyddol anffyddiaeth ar feddyliau pobl heddiw. Credant eu bod yn peintio stori eu bywyd ar gynfas bychan bach eu bywyd daearol. 40 mlynedd, 60 mlynedd neu efallai can mlynedd. Ond drwy ffydd yn Iesu mae drws arbennig yn cael ei agor fel ein bod yn peintio stori ein bywydau ar gynfas enfawr, cynfas tragwyddoldeb. Mae hyn yn newid ein hagwedd yn llwyr at dreigl amser a'r hyn sy'n digwydd inni. Cofiwn eiriau Iesu.

Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth.

Ioan 11:25–27

Felly wrth gamu i mewn i 2023 gallwn wneud hynny'n hyderus fel Cristnogion oherwydd bod yr efengyl yn ein harfogi i ddelio gyda'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol.




**Cyfundeb Gorllewin Morgannwg**
yn cyflwyno
***Heulwen Dan Gymylau***
Ymgyrch Eglwysi Dementia-gyfeillgar
**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**
yng nghwmni
Emlyn Davies, Rhodri Gwynn Jones a Sian Meinir
**CAPEL Y NANT, CLYDACH, SA6 5HB**
**Nos Fercher, 1 Chwefror, 2023**
6.30 p.m.
***Croeso cynnes i bawb***

## Myfyrdod: Blaenoriaethau bywyd

'Dywedodd Iesu wrtho, "Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl." Dyma'r gorchymyn cyntaf a'r pwysicaf. Ac y mae'r ail yn debyg iddo: "Câr dy gymydog fel ti dy hun."'

(Mathew 22:37–38)

Mae'r flwyddyn newydd yn gyfle delfrydol i ailystyried ein blaenoriaethau mewn bywyd. Dyma pam fod rhai yn dewis gwneud addunedau blwyddyn newydd i fwyta llai o siocled, i wneud mwy o ymarfer corff, i ddarllen mwy o lyfrau ac i dreulio mwy o amser gyda'n teuluoedd. Mae'r addunedau arbennig hyn yn gyfle i ystyried pa bethau sy'n mynd i fod yn bwysig i ni yn ystod y flwyddyn sydd o'n blaenau.




Yn yr un modd, cwestiwn pwysig i bob Cristion ei ofyn ar gychwyn blwyddyn newydd yw beth sy'n mynd i fod yn flaenoriaeth i ni? Beth sy'n mynd i fod yn bwysig i ni yn 2023?

Yn Mathew 22:37–38, mae'r Arglwydd Iesu yn dweud wrth un o'r Phariseaid beth yw blaenoriaeth y Cristion mewn bywyd: 'Dywedodd Iesu wrtho, '"Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl." Dyma'r gorchymyn cyntaf a'r pwysicaf. Ac y mae'r ail yn debyg iddo: "Câr dy gymydog fel ti dy hun."'

Dyma beth yw blaenoriaeth y Cristion yn 2023. Dyma beth yw blaenoriaeth y Cristion bob blwyddyn. Yn gyntaf, rydym i garu Duw gyda'n holl galon, enaid a meddwl ac, yn ail, rydym i garu ein cymdogion fel ein hunain. Beth am weddïo ar gychwyn y flwyddyn newydd hon y bydd yr Arglwydd yn ein helpu i wneud hyn yn flaenoriaeth eleni?

Wrth gwrs, er ein holl ymdrechion i garu'r Arglwydd ac i garu ein cymdogion yn 2023, byddwn yn methu â gwneud hyn yn berffaith. Bydd cyfnodau yn dod pan fyddwn yn anwybyddu Duw a phan fyddwn yn esgeuluso eraill. Oherwydd hyn, rydym i gyd angen maddeuant. Newyddion da'r Beibl ydy fod maddeuant ar gael i bob Cristion gan fod Iesu wedi marw ar y groes dros ein pechodau ac wedi atgyfodi'n fyw ar y trydydd dydd. Am newyddion gwych i'n nerthu a'n hysgogi i garu'r Arglwydd ac i garu eraill yn 2023!

**Gwilym Tudur**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*